

Ar Osod

**Yr Hen Doiledau Cyhoeddus, Y Stryd Fawr, Trelyn
NP12 3UE**



Arwynebedd mewnol gros o 21.6m² fwy neu lai.

***Gwahoddir mynegiannau
o ddiddordeb***

- | | |
|-------|--|
| (i) | Nodir y manylion fel amlinelliaid cyffredinol yn unig ar gyfer cyfarwyddyd i'r prynwyr arfaethedig, ac nid ydynt yn gyfystyr nac yn rhan o gynnig neu gontract; |
| (ii) | Rhoddir holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cyfeiriadau at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio a meddiannu, a manylion eraill heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw brynwyr posib ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith ond mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain drwy arolygiad neu fel arall o ran cywirdeb pob un ohonynt; |
| (iii) | Nid oes gan unrhyw un a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili unrhyw awdurdod i wneud neu i roi unrhyw sylwadau i warantu unrhyw beth mewn perthynas â'r eiddo hwn; nid yw'r awdurdod hwn yn rhwym i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig. |

LLEOLIAD

Mae'r eiddo'n sefyll yn y Stryd Fawr, Trelyn, i'r de o'r gyffordd â Gwent Court NP12 3UE

DISGRIFIAD

Mae'r eiddo'n adeilad unllawr gyda thair ystafell, sy'n cynnwys toiledau i dynion, toiledau i fenywod a storfa. Mae pibellau copr dŵr poeth ac oer yn yr adeilad. Dylai darpar denantiaid fod yn ymwybodol bod yr adeilad mewn cyflwr gweddol, er bod hen elfennau y bydd angen eu hamnewid yn y dyfodol agos; mae arolwg cyflwr ar gael er gwybodaeth.

Gall yr eiddo fod yn addas ar gyfer nifer o ddefnyddiau, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

GWASANAETHAU


Mae'r eiddo'n elwa ar wasanaethau dŵr a thrydan o'r prif gyflenwad.

ARDRETHI BUSNES

Ar hyn o bryd, mae gan yr eiddo werth ardrethol o £620. Byddai disgwyl rhyddhad ardrethi busnesau bach.

YMWELIADAU

I'w trefnu drwy apwyntiad.



DEILIADAETH A THELERAU

Gwahoddir mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer prydles newydd ar delerau i'w cytuno. Ystyrir ceisiadau gan fuddiannau cymunedol. Cynghorir tenantiaid posibl i gysylltu ag Adran Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i sicrhau y bydd y defnydd arfaethedig yn dderbyniol o ran cynllunio.

CYNLLUNIAU

Mae'r cynlluniau a'r ffotograffau, sydd ynghlwm wrth y manylion hyn, at ddiben adnabod yn unig.

FFIOEDD

Rhaid i bob parti fod yn gyfrifol am ei ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol ei hun yn y trafodion. Mae'n bosibl y bydd angen i'r tenant llwyddiannus gyfarwyddo cyfreithiwr i gwblhau'r brydles hon.



MANYLION CYSWLLT

EIDDO CORFFORAETHOL

Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed Ffôn: 01443 863333
CF82 7PG
eiddo@caerffili.gov.uk

CYNLLUNIO

Tŷ Tredomen
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed Ffôn: 01443 866416
NP12 2YW
cynllunio@caerffili.gov.uk

NODER

Gwahoddir mynegiannau o ddiddordeb am y buddiant lesddaliadol, ac ni fydd unrhyw gynnig ariannol yn cynnwys unrhyw ardrethi, TAW neu'r Dreth Trafodiadau Tir, os yw'n berthnasol.